

SGANDAL ROTHERHAM



Y ddelwedd wedi ei ddarparu gan Happymillerman on Flickr (Creative Commons BY 2.0)

Rhwng y 1990au a 2013, fe wnaeth gangiau o ddynion yn Rotherham gamfanteisio'n rhywiol ar o leiaf 1,400 o blant. Cafodd dioddefwyr mor ifanc ag un ar ddeg mlwydd oed eu bygwth, rhoddwyd cyffuriau ac alcohol iddynt, a chawsant eu curo, eu treisio, eu cam-drin yn rhywiol, eu masnachu a'u bygwth gan ddynion o dras De Asiaidd yn bennaf.

Roedd nifer o'r dioddefwyr eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol, a mynegodd gweithwyr ieuencid bryderon sawl gwaith wrth Gyngor Rotherham. Ond roedd uwch-swyddogion yn ofni y byddai datgelu achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn niweidio enw da'r dref ac yn datgymell buddsoddwyr.

Hefyd, roeddynt yn bryderus y byddai trafod ethnigrwydd y cyflawnwyr yn arwain at gyhuddiadau'n ymwneud â hiliaeth. O ganlyniad, rhoddwyd yr adroddiadau o'r neilltu a chafodd gweithwyr eu rhybuddio i beidio â sôn am y mater. Yn wir, cafodd ymchwilydd o'r Swyddfa Gartref ei wahardd gan y cyngor am ymchwilio i'r gamdriniaeth ac annog un o'r dioddefwyr i fynd at yr heddlu.

Ni chymerodd Heddlu De Swydd Efrog yr adroddiadau o ddifrif. Yn aml, rhoddwyd y bai am y gamdriniaeth ar y dioddefwyr eu hunain, a ddôl yn bennaf o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Mewn un achos, rhoddodd teulu merch 13 oed wybod i'r heddlu ei bod ar goll. Daeth yr heddlu o hyd i'r ferch mewn tŷ; roedd yn feddw, yn hanner noeth ac wedi'i hamgylchynu gan nifer o ddynion. Yn hytrach na'i thrin fel dioddefwr, arestiwyd y ferch gan y swyddogion am fod yn feddw ac yn afreolus.

Eisiau rhagor o wybodaeth?

Download the Independent Inquiry into Child Sexual Exploitation in Rotherham (1997 - 2013) at rotherham.gov.uk

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Dim ond ar ôl i chwythwyr chwiban a newyddiadurwyr lunio cyfres o erthyglau'n sôn am gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn Rotherham y daeth y sgandal hon i'r fei.

Er y datgelwyd nifer o ddiffygion mewn ymchwiliad i'r modd y deliodd Heddlu De Swydd Efrog â'r mater, ni chollodd yr un swyddog ei swydd. Y gosb waethaf a roddwyd oedd rhybudd ysgrifenedig.

Nid yw sgandal Rotherham yn unigryw. Cafodd gangiau o'r fath, a oedd yn gweithredu ledled y DU, eu hanwybyddu gan awdurdodau am flynyddoedd gan eu bod ofn ysgogi tensiynau hiliol, a hefyd gan fod diwylliant o 'feio'r dioddefwyr' yn bodoli.

PAM BOD ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH?

“Fe wnaethon nhw ddwyn fy mhлentyndod, fy addysg, fy mhlant, ond fe wnaethon nhw fy ngadael gyda fy atgofion, cefais fy ngalw'n gelwyddgi, fe wnaethon nhw ddweud fy mod i'n ddrwg a 'mod i'n hoffi cysgu o gwmpas Nawr, mae'r byd yn gwybod y gwirionedd. Plant oedden ni. Fe allen nhw fod wedi dewis rhoi'r gorau iddi, ond wnaethon nhw ddim”

(Dyfyniad gan un o'r dioddefwyr)

“Heb ddyletswydd gonestrwydd y gellir ei gorfodi gan y gyfraith, gall sefydliadau gydnabod methiannau'n breifat ond gallant gelu'r gwirionedd rhag y cyhoedd. Nid rhywbeth dewisol neu symbolaidd yw Cyfraith Hillsborough – mae'n hanfodol. Ni all cyfiawnder oroesi heb wirionedd, ac ni all gwirionedd oroesi heb atebolrwydd”

Dyfyniad gan Jayne Senior MBE, Chwythwr Chwiban o 'Risky Business', sef prosiect ieuencid lleol